Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 12fed Ebrill 2006 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Ros Bellamy, Cyng Pamela Steane Price, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Charlotte Leadbeater
Mr Des Davies, Swyddog Technegol. Mr Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Fran Murphy

6749/ Ebrill / 06 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried:

E/12499 DARPARU LLE PARCIO AR GYFER UN CERBYD WRTH EIDDO PRESWYL, TIR GYFERBYN Â PHANT Y CELYN, WERN CLOSE, GARTH MADRYN
Dim gwrthwynebiad

E/12591 CYNLLUNIO AMLINELLOL AR GYFER 2 ANHEDDLE (LEFEL GYCHWYNNOL) TIR WRTH YMYL 'RED COTTAGES', STRYD CAERFYRDDIN
Dim gwrthwynebiadau. Croesawir ymrwymiad i ddatblygiad ar lefel gychwynnol a defnydd o ddeunyddiau addas.

E/12695 ADDASU ADEILAD AMAETHYDDOL TRADDODIADOL YN UN UNED BRESWYL. ADEILADAU SEGUR. LLWYN HELYG, LLANDEILO.
Dim gwrthwynebiad. Defnydd da o adeiladau segur.

ConsE/DNE COED WRTH Y FYNEDFA I BARC DINEFWR
Dim gwrthwynebiad

TPO/E96/DNE GORCHYMYN CADWRAETH COED, STRYD CAERFYRDDIN.
Sylw : Dylid diolch i'r Cyngor am gadw'r coed hyn.

6750 / Ebrill / 06 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Cymeradwywyd y ceisiadau canlynol gan adran gynllunio'r Sir:-

E/11708 2 FYNGALO AR DIR WRTH YMYL 4, HEOL NEWYDD

E/12074 ARWYDD SIOP (CYNLLUNIAU DIWYGIEDIG) 74, HEOL RHOSMAEN.

E/12075 ARWYDD SIOP TRADDODIADOL YN LLE'R UN PRESENNOL (NEWIDIWYD I'R RHEINI A GYMERADWYIR O DAN E/10501 AR 15.11.05) YN 74, HEOL RHOSMAEN

E/12227 AILOSOD TOEON DROS HEN NEUADD Y GWEISION (ARDAL 16) A'R PASEJ SYDD WRTH YMYL Y GRISIAU. AILOSOD MANYLION HANESYDDOL I'W HARDDANGOS I'R CYHOEDD YN NHŶ'R DRENEWYDD.

Gwrthodwyd y ceisiadau canlynol gan adran Gynllunio'r Sir :-

E/12126 ARWYDD SIOP X2 (PINIWN YR ADEILAD AR Y DDWY OCHR) YN 139, HEOL RHOSMAEN.

E/08273 RHOI WYNEB PREN NEWYDD YM MLAEN POPTY 'KNEAD THE DOUGH', 44, HEOL RHOSMAEN.
SYLW : Clerc i ysgrifennu at Mr Graham Noakes, Swyddog Cynllunio, yn gofyn a yw'r Swyddogion Cadwraeth a Chynllunio wedi bod yn cydweithio gyda'r ymgeisydd fel ag yr argymhellwyd yn yr ymchwiliad er mwyn i bethau fod yn foddhaol i'r ddwy ochr.

6751/ Ebrill / 06 Trafnidiaeth
Derbyniwyd gohebiaeth gan y Gymdeithas Gymunedol yn gwrthwynebu'r cynnydd mewn taliadau parcio yn y Dref a'r effaith negyddol y mae'n ei gael ar fusnesau a'r ffaith bod mwy o gerbydau sy'n parcio anghyfreithlon ar ffyrdd yn achosi trafferthion i bobl sy'n byw yn y tai. Dywedodd y Maer bod y Clerc wedi trefnu cyfarfod ar y cyd rhwng Cyngor Tref Llanymddyfri, Cyngor Tref Castell Newydd Emlyn, Cyngor Tref Rhydaman a Chyngor Tref Llandeilo ar ddydd Iau, Ebrill 20fed yn Neuadd y Sir.

6752 / Ebrill / 06 Goleuadau
Mae CSC wedi cael gwared â'r Lantern Fictoraidd o'r Siop Anifeiliaid Anwes yn Stryd Caerfyrddin a gosod golau modern yr olwg yno. Argymhellwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at adran Oleuadau CSC yn gofyn a fyddent yn fodlon tynnu hwn oddi yno a gosod golau sy'n fwy addas ar gyfer y rhan hon o'r dref.

6753 / Ebrill / 06 Adroddiad Llwybrau Troed
Dywedodd y Swyddog Technegol ei fod wedi ail osod y goleuadau ar gyfer Mynwent yr Eglwys. Adroddodd bod clymon plastig wedi'u defnyddio gan CSC wrth atgyweirio'r bont siglo. Mae un panel yn parhau i fod mewn cyflwr peryglus. Argymhellwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at CSC yn eu hysbysu am y sefyllfa anfoddhaol hon gan ofyn i'r gweithwyr gysylltu â'r Swyddog Technegol yn y dyfodol pan mae angen gwneud gwaith. Dywedodd Mr Davies hefyd nad oedd y gwaith ar lwybr troed Glynceirch wedi dechrau hyd yn hyn. Argymhellwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at CSC yn gofyn iddynt pryd oeddynt yn bwriadu gorffen y gwaith.

6754 / Ebrill / 06 Gohebiaeth
1. CSC – llythyr yn hysbysu'r Cyngor o'r angen i wneud cais am gynlluniau o ran reoliadau adeilad ar brosiect Neuadd y Sir. Mae'r Cyng Ieuan Gwyn eisoes wedi gwneud cais am hyn.
2. Holiadur CADW. Cyng Richard Wallace i'w lanw.
3. CSC Parthed: Profi mannau gosod trydan. Roedd yr aelodau yn hynod ddig am y costau a godwyd.

- Codwyd am 4 awr o waith pan dim ond am 30 munud y gwelwyd hwy ar y safle
- Codwyd am 4 awr o deithio yn ôl ac ymlaen o Lanelli

Argymhellwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Phil Williams, Pennaeth Gwasanaethau Stryd yn gofyn am dynnu £270 oddi ar y dyfynbris gwreiddiol o £950 oherwydd bod y pris yn rhy uchel.

4. Cynllunio CSC Parthed: newid enw o 16, Stryd Caerfyrddin i 'Bells House'.
5. Cais oddi wrth y CS Ieuan Jones i helpu gydag Archif Hanesyddol i'w gynnal Ysgol Tre-gib. Argymhellwyd eu bod yn gohebu â'r Cyngor Llawn.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10 pm.